RHONDDA CYNON TAF

**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**CYNGOR**

Cofnodion cyfarfod hybrid y Cyngor a gafodd ei gynnal ddydd Mercher, 23 Tachwedd 2022 am 5pm.

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol – Roedd y Cynghorwyr canlynol yn bresennol yn Siambr y Cyngor:-**

Y Cynghorydd G Hughes (Cadeirydd)

Y Cynghorydd S Evans
Y Cynghorydd B Stephens
Y Cynghorydd L Addiscott
Y Cynghorydd M Ashford
Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd S Bradwick
Y Cynghorydd J Brencher
Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd J Cook
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd S J Davies
Y Cynghorydd R Davis
Y Cynghorydd V Dunn
Y Cynghorydd E L Dunning
Y Cynghorydd J Edwards
Y Cynghorydd A J Ellis
Y Cynghorydd L Ellis
Y Cynghorydd S Emanuel
Y Cynghorydd B Harris
Y Cynghorydd S Hickman
Y Cynghorydd G Holmes
Y Cynghorydd W Hughes
Y Cynghorydd K Johnson
Y Cynghorydd G Jones
Y Cynghorydd G O Jones
Y Cynghorydd W Jones
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd W Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd C Lisles
Y Cynghorydd M Maohoub
Y Cynghorydd A Morgan
Y Cynghorydd S Morgans
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd S Rees
Y Cynghorydd J Smith
Y Cynghorydd G Stacey
Y Cynghorydd L A Tomkinson
Y Cynghorydd S Trask
Y Cynghorydd W Treeby
Y Cynghorydd G L Warren
Y Cynghorydd K Webb
Y Cynghorydd M Webber
Y Cynghorydd R Williams
Y Cynghorydd R Yeo

**Roedd y Cynghorwyr canlynol yn bresennol ar-lein:-**

Y Cynghorydd J Barton
Y Cynghorydd P Binning
Y Cynghorydd J Bonetto
Y Cynghorydd J Elliott
Councillor P Evans
Y Cynghorydd R Evans
Y Cynghorydd S.Evans
Y Cynghorydd A Fox
Y Cynghorydd D Grehan
Y Cynghorydd H Gronow
Y Cynghorydd C Middle
Y Cynghorydd K Morgan
Y Cynghorydd N H Morgan
Y Cynghorydd Owen-Jones
Y Cynghorydd D Parkin
Y Cynghorydd C Preedy
Y Cynghorydd A Roberts
Y Cynghorydd A O Rogers
Y Cynghorydd G E Williams
Y Cynghorydd D Wood

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr P Mee, Prif Weithredwr
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol

Mr C. Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu

Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
lMr M Jones, Archwilio Cymru
Ellis Williams, Archwilio Cymru

**48 Croeso ac Ymddiheuriadau**

Croesawodd y Llywydd bawb i gyfarfod hybrid y Cyngor a derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol D Evans, G Hopkins, W Owen, S Powderhill, M Powell, J Turner, D Williams a T Williams.

**49 Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

**Eitem 8 ar yr Agenda – Rhybudd o Gynnig**

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D R Bevan - "Rydw i'n Aelod o Unite the Union"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Emmanuel - "Rydw i'n Aelod o Unite the Union"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Hughes - "Rydw i'n Aelod o Unite the Union"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol K Johnson - "Rydw i'n Aelod o Unite the Union ac yn Aelod o'r Pwyllgor Trwyddedu"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D O Jones - "Rydw i'n Aelod o Unite the Union"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Jones – "Rydw i'n Aelod o Unite the Union"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Maohoub - "Rydw i'n Aelod o Unite the Union"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol C Middle - "Rydw i'n Aelod o Unite the Union"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol C Preedy - "Rydw i'n Aelod o Unite the Union"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Trask - "Rydw i'n Aelod o Unite the Union,

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Williams - "Rydw i'n aelod o Unite the Union ac yn Stiward siop"

**50 Cofnodion**

**PENDERFYNODD** y Cyngor gymeradwyo cofnodion y cyfarfod, a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2022 yn rhai cywir.

**51 Cyhoeddiadau**

Cafodd y cyhoeddiadau canlynol eu gwneud:

- Croesawodd y Llywydd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Dennis i'w gyfarfod Cyngor cyntaf, ar ôl iddo gael ei ethol yn yr isetholiad diweddar.

- Dymunodd y Llywydd longyfarch trigolyn o Donypandy, Mr Mason Harris, sydd wedi cystadlu ym Mhencampwriaeth Cicfosio WCKA y Byd yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Ychwanegodd fod Mason eisoes wedi ennill Pencampwriaeth Cymru, ond enillodd medal aur, arian a dwy fedal efydd er mwyn ennill Pencampwriaeth y Byd. Mae Mason wedi bod yn cystadlu ers iddo fod yn 4 oed ac mae ei ymrwymiad i'r gamp, trwy fynychu sesiynau hyfforddi bob dydd, wedi ysbrydoli aelodau ifainc o'r tîm. Gofynnodd y Llywydd a fyddai modd i'r Maer anfon llythyr at Mason i'w longyfarch.

- Croesawodd y Llywydd Mr Paul Mee i'w gyfarfod Cyngor cyntaf fel Prif Weithredwr. Roedd Arweinydd y Cyngor hefyd wedi rhoi gwybod bod Mr Chris Bradshaw wedi gorffen gweithio i'r Cyngor. Siaradodd yr Arweinydd am arweinyddiaeth gref a synhwyrol y Cyngor, gan ddymuno pob dymuniad da i'r Prif Weithredwr newydd. Roedd Mr Mee yn ddiolchgar iawn am y sylwadau gan nodi bod camu i rôl Prif Weithredwr y Cyngor yn frain fawr.

- Roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Lewis wedi llongyfarch Mr Dane Blacker ar gael ei ddewis i fod yn rhan o garfan Undeb Rygbi Cymru. Ychwanegodd ei bod hi'n gobeithio y bydd Dane yn dilyn olion traed Garin Jenkins a Steff Jones, sydd hefyd o Ynys-y-bwl. Nododd y Cynghorydd Ellis fod Ynys-y-bwl yn falch iawn o lwyddiant Dane, a bod holl drigolion yr ardal yn dymuno pob llwyddiant iddo yn y dyfodol

- Roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A O Rogers wedi cydnabod llwyddiannau trigolion o ward Hirwaun, Penderyn a Rhigos:
  - Enillodd Mr David James Gwobr Cyflawniad Oes Scouts Cymru gan nodi ei fod e wedi gwneud cyfraniad mawr i Grŵp Hirwaun;
  - Mae Ms Amy Williams wedi ennill Pencampwriaeth Bowls i Fenywod Ynysoedd Prydain yn ogystal â'r fedal efydd a enillodd hi ym mis Ebrill;
  - Enillodd Mr Tyler Lee-Jones sawl gwobr ym Mhencampwriaeth Cicfocsio'r Byd a gafodd ei chynnal yng Nghaerdydd yn ddiweddar, roedd hynny'n cynnwys medal Aur;
  - Enillodd Mr Alistair Cope Wobr Rhagoriaeth ym maes Maethu 2022 am ei Gyfraniad i'r gymuned faethu.

- Cyfeiriodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Jones at yr achlysur a gynhaliwyd i agor y caeau 3G newydd yn Nhreherbert a Threorci gan ddiolch i'r Arweinydd, Aelodau'r Cabinet a'r Cyngor am y cyfleusterau arbennig yma. Roedd y Cynghorydd wedi cydnabod bod Aelodau'r Cabinet, Y Cynghorydd A Crimmings a'r Cynghorydd R Lewis, ynghyd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi mynychu'r achlysur. Dymunodd y Cynghorydd Jones ddiolch i Mr Keith Nicholls, Pennaeth Hamdden, Chwaraeon a Pharciau, a'i staff, yn ogystal â phlant yr ysgolion cynradd a ddaeth i'r achlysur.

**52 Datganiadau**

Rhoddodd yr Arweinydd ddiweddariad mewn perthynas â Chyllideb y Cyngor. Er bod y ffigurau diweddaraf o Gyllideb y DU yn darparu rhai adnoddau ychwanegol i Gymru, nododd fod y Cyngor yn aros i weld a fydd unrhyw gyllid canlyniadol ar gyfer Addysg a Gofal Cymdeithasol yn rhan o Setliad Llywodraeth Cymru a fydd yn cael ei gyhoeddi cyn y Nadolig. Pwysleisiodd na fyddai cynnydd yn y Grant Cynnal Ardrethi yn cael effaith ar y diffyg yn y gyllideb gwerth £47miliwn. Rhoddodd yr Arweinydd wybod bod Canghellor y DU wedi cynghori bod angen i Awdurdodau Lleol weithredu o fewn eu cyllidebau a bod hyn yn cyflwyno heriau

enfawr, gan ystyried cynnydd mewn costau ynni a chostau bwyd.

Nododd yr Arweinydd y bydd y Cyngor yn rheoli pwysau costau drwy addasu gwasanaethau a gweithredu dulliau cyflawni gwahanol. Ychwanegodd fod y Cyngor wedi gwneud ymrwymiad i'r Undebau Llafur drwy nodi y bydd y Cyngor yn gweithio'n galed er mwyn osgoi diswyddiadau gorfodol, trwy droi at ddiswyddiadau gwirfoddol a dileu swyddi gwag ble y bo'n addas. Rhoddodd wybod i'r Aelodau y bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda chydweithwyr o'r Undebau Llafur er mwyn mynd i'r afael â'r materion yma. Daeth i ben drwy nodi nad oedd y Gyllideb yr wythnos ddiwethaf yn cynnig digon o gymorth er mwyn osgoi bwlch sylweddol yn y gyllideb y flwyddyn nesaf.

**53 Cwestiynau gan yr Aelodau**

**1. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol L Addiscott i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan:**

*"Pa effaith ydy cynlluniau economaidd Llywodraeth y DU yn ei chael ar brisiau ynni, yn enwedig ar gyfer Awdurdodau Lleol?"*

**Ymateb Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd A Morgan:**

O ran ynni annomestig, roedd y Cynghorydd Morgan wedi ymateb trwy ddweud nad oedd unrhyw eglurder mewn perthynas â sut bydd y cynllun yn gweithio ar ôl mis Mawrth. Mae hyn yn golygu nad oes gan fusnesau, sefydliadau'r sector gwirfoddol ac awdurdodau lleol unrhyw sicrwydd o ran beth fyddan nhw'n talu'r flwyddyn nesaf.

Ar gyfer aelwydydd, bydd y cap yn cynyddu ym mis Ebrill y flwyddyn nesaf, o £2,500 i £3,000, sy'n gynnydd sylweddol. Rhoddodd yr Arweinydd wybod nad oes cap cyfwerth ar gael i Awdurdodau Lleol, felly os yw'r Cyngor yn edrych ar opsiynau ynni amgen, megis tyrbinau gwynt, ynni dŵr, ffermydd solar ac os yw'n cynhyrchu ei ynni ei hun, bydd hi'n hanfodol defnyddio'r holl ynni (gan ei fod e'n fwy gwerthfawr na gwerthu'r ynni yn ôl i'r Grid Cenedlaethol).

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y pwysau mawr fydd ar yr Awdurdod Lleol dros y 12 mis nesaf.

**Cwestiwn Ategol:**

"Pa ddatrysiadau hir-dymor y mae modd i ni eu hystyried er mwyn osgoi sefyllfaoedd tebyg yn y dyfodol?"

**Ymateb Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd A Morgan:**

Cyfeiriodd yr Arweinydd at yr angen i newid Llywodraeth er mwyn osgoi'r sefyllfaoedd yma gydag economi sy'n tyfu ynghyd â buddsoddi parhaus. Byddai hyn yn effeithio ar bris cyffredinol uned o ynni. Roedd yr Arweinydd hefyd wedi sôn mai dod yn fwy cynaliadwy ar lefel leol a chenedlaethol yw'r ffordd ymlaen a bod Swyddogion y Cyngor yn adolygu ystyriaethau blaenorol mewn perthynas ag opsiynau ynni gwahanol, sydd bellach yn fwy economaidd. Rhoddodd wybod y bydd gofyn i'r Cabinet a'r Cyngor fuddsoddi cyllid sylweddol mewn datrysiadau ynni amgen megis solar ac ynni dŵr, fel bod modd i'r Cyngor fod yn fwy

hunangynhaliol.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y pŵer sydd gan Rwsia dros y cyflenwad nwy yn Ewrop a'r effaith mae hynny'n ei chael ar yr argyfwng ynni. Byddai modd osgoi hyn os oedd modd sicrhau ein bod ni'n hunangynhaliol a chynaliadwy.

**2. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol D Parkin i Arweinydd y Cyngor – Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan:**

*"Pa sylwadau sy'n cael eu cyflwyno i Lywodraeth San Steffan mewn perthynas â'r argyfwng cyllid y mae'r Awdurdodau Lleol yn ei wynebu yn y flwyddyn ariannol nesaf?*

**Ymateb Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd A Morgan:**

Roedd yr Arweinydd wedi ymateb trwy ddweud ei fod e wedi ysgrifennu at y Prif Weinidog a Changhellor Llywodraeth y DU, yn rhan o'i rôl fel Arweinydd Cyngor RhCT ac Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, mewn perthynas â'r pwysau y mae Awdurdodau Lleol yn eu hwynebu'r flwyddyn nesaf gan nodi ei fod wedi lobïo Llywodraeth y DU am gyllid ychwanegol.

Ychwanegodd fod rhan helaeth o gronfeydd wrth gefn y Cyngor wedi cael ei neilltuo ar gyfer gwasanaethau penodol, gan gynnwys £21miliwn ar gyfer Ysgolion. Er bod y Cyngor yn wynebu gorwariant sylweddol, mae'r Cyngor wedi cadw ei gronfeydd wrth gefn i'w defnyddio'r flwyddyn yma a'r flwyddyn nesaf. Cyfeiriodd at y diffyg buddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus, megis y GIG, DVLA, y Swyddfa Pasbortau (mae'r ddau yma'n wynebu llwyth gwaith sylweddol), Network Rail a meysydd eraill sydd angen rhagor o fuddsoddiad ac sydd ddim yn derbyn digon o gymorth gan Lywodraeth y DU, sydd efallai ddim yn cael eu heffeithio'n bersonol nac yn cael eu heffeithio gan y gwasanaethau ac felly dydyn nhw ddim yn gwerthfawrogi'r gwasanaethau yma.

**Dim Cwestiwn Ategol**

**3. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol K. Morgan i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

*"Pa fesurau rhagweithiol sy'n cael eu rhoi ar waith gan y Cyngor er mwyn sicrhau bod draeniau a gylïau yn cael eu clirio, gan atal llifogydd?"*

**Ymateb Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd A Morgan:**

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod y Cyngor wedi sefydlu Carfan Cynnal a Chadw Draenio sy'n cynnwys 33 swyddog, mae hyn yn uwch nag unrhyw Awdurdod Lleol arall yng Nghymru. Yn dilyn yr adroddiad ar Storm Dennis a gafodd ei gyflwyno i'r Cabinet yn 2020, mae'r Cyngor wedi caffael contract 5 mlynedd gydag Arch, sydd â depo rhanbarthol yn ardal Porth ar gyfer arolwg teledu cylch cyfyng a glanhau ceuffosydd dŵr wyneb.

Dywedodd yr Arweinydd fod arolygwyr (mae yna 3 yn y Fwrdeistref Sirol erbyn hyn) yn asesu gylïau pan fydd cais i glirio draen neu gyli. Os nad oes perygl o ddŵr yn casglu, byddwn ni'n mynd i'r afael â'r cais yn rhan o gynllun cynnal a chadw cyffredinol y Cyngor. Os yw'r cais yn ymwneud ag ardal breswyl lle mae perygl i eiddo neu mae yna gofnod o rwystrau yn y gyli, yna bydd y gyli yn cael

ei glirio.

**Cwestiwn Ategol**

"*Roedd gyli wedi'i rwystro ar y brif ffordd yn Hirwaun y bore ma, a gallai hyn wedi achosi llifogydd. Mae sawl digwyddiad arall wedi bod lle mae dail neu saim o fusnesau preifat wedi achosi rhwystr mewn gyli. Pan fydd y mesurau rhagweithiol a ddisgrifiwyd yn methu i atal llifogydd, fel rydyn ni wedi'i brofi, ydy'r Cyngor yn monitro hyn ac a oes unrhyw ddata ar gyfer nifer yr alwadau rydyn ni'n ymateb iddyn nhw, hefyd ydy'r Cyngor yn rhoi unrhyw fesurau pellach ar waith wrth ymateb i'r data yma a hynny er mwyn cyflawni'r nod o atal llifogydd mewn modd rhagweithiol?"*

**Ymateb Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd A Morgan:**

Nododd y Cyngor ei fod e wedi ymateb i'r alwad mewn perthynas â'r gyli soniodd y Cynghorydd K Morgan amdano gan nodi ei fod e wedi cynghori'r trigolyn i gysylltu â Chanolfan Alwadau'r Cyngor. Cadarnhaodd yr Arweinydd fod gwaith glanhau gylïau'n cael ei flaenoriaethu ar sail data sy'n nodi ardaloedd mewn perygl neu unrhyw gofnod o lifogydd yn y gorffennol. Cynhelir gwaith clirio â dŵr mewn rhai ardaloedd a chaiff rhai ardaloedd eu glanhau bob mis. Pwysleisiodd yr Arweinydd fod cofnod yn cael ei greu ar system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) y Cyngor ar gyfer pob galwad i'r ganolfan alwadau. Daeth yr Arweinydd i ben drwy nodi y dylai Aelodau gysylltu â swyddogion os oes gyda nhw unrhyw bryderon mewn perthynas â gylïau wedi'u rhwystro a hynny trwy ffonio Canolfan Alwadau'r Cyngor.

**4. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Smith i Arweinydd y Cyngor - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

*"A wnaiff yr Arweinydd ddatganiad mewn perthynas â'r gwaith y mae'r Cyngor yn ei wneud o ran cynllunio cyllideb y Cyngor cyn i'r setliad Llywodraeth Leol is ar gyfer y ddwy flynedd nesaf ddod i rym?*

**Ymateb Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd A Morgan:**

Nododd yr Arweinydd ei fod e wedi cwrdd ag Arweinwyr, Aelodau'r Cabinet ar faterion Cyllid, yn ogystal â Phrif Weithredwr a Thrysorydd 21 Awdurdod Lleol arall yn RhCT yn ddiweddar, ychwanegodd fod y ffigur ledled Cymru yn debyg i'r diffyg yn RhCT, gydag Abertawe, Caerdydd a Merthyr Tudful, ynghyd ag awdurdodau lleol eraill o faint tebyg, yn nodi diffygion tebyg.

Defnyddiodd yr Arweinydd y gyfatebiaeth ganlynol i ddisgrifio'r sefyllfa, bydd y flwyddyn nesaf yn debyg i gerdded i fyny bryn, bydd y flwyddyn ar ôl hynny yn debyg i ddringo clogwyn ac ymhen dwy flynedd bydd hi'n debyg i gwympo oddi ar y clogwyn gan y bydd Llywodraeth y DU wedi gohirio'i thoriadau sylweddol, a bydd hyn efallai yn arwain at doriadau sylweddol i wariant cyhoeddus. Roedd yr Arweinydd yn gobeithio bod y rhagolygon sy'n nodi y bydd y dirwasgiad yn fyrrach, a bydd yr economi yn tyfu ac ni fydd angen rhagor o doriadau i drethi'r cyfoethog. Yn ei farn ef, dylai'r dreth ffawdelw fod wedi'i chynyddu i 50% neu hyd yn oed 75%, a phwysleisiodd fod y dreth yma'n cyfrif fel elw annisgwyl y tu hwnt i unrhyw beth a ddisgwyliwyd. Roedd e'n gobeithio y bydd unrhyw Lywodraeth yn y dyfodol yn mynd cam ymhellach gyda'i threth ffawdelw.

**Datganiad Ategol**

"Nid bai'r Cyngor yw'r penderfyniadau anodd yma, mae angen i ni gyfathrebu bod y newidiadau yma i wasanaethau yn digwydd o ganlyniad i benderfyniadau gwleidyddol Llywodraeth y DU. Mae'r unigolion a'r Cyngor mewn sefyllfa debyg, ac mae gofyn iddyn nhw wneud penderfyniadau anodd heb unrhyw fai arnyn nhw eu hunain"

**5. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. D. Ashford i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Caple:**

*"Sut mae Cyngor Cymuned Pont-y-clun wedi ymgysylltu â'r Cyngor mewn perthynas â dyfodol Café 50+?"*

**Ymateb y Cynghorydd G Caple:**

Rhoddodd y Cynghorydd Caple wybod fod Cyngor Cymuned Pont-y-clun wedi rhoi gwybod ar 8 Medi na fyddan nhw'n cymryd Café 50 ar brydles. O ran ymgysylltu, fodd bynnag, nododd y Cynghorydd Caple fod Swyddogion wedi cadarnhau nad oedd y Cyngor Cymuned wedi ymgysylltu â'r Cyngor ac roedd y Cyngor wedi synnu eu bod nhw dim ond wedi rhoi gwybod am y newid.

**Cwestiwn Ategol:**

*A fyddech chi'n cytuno y dylai gwaith ymgysylltu ystyrlon gael ei gynnal gyda thrigolion a'r Cyngor mewn perthynas â'r mater yma?*

**Ymateb y Cynghorydd G Caple:**

Dywedodd y Cynghorydd Caple y dylai proses ymgynghori gael ei chynnal cyn gwneud penderfyniad o'r fath, a'i bod hi'n siomedig nad oedd gwaith ymgysylltu ystyrlon wedi'i gynnal gyda'r Cyngor yn yr achos yma. Ychwanegodd fod Café 50+ yn boblogaidd iawn ac yn cael ei ddefnyddio'n aml gan y bobl leol, ac mae'n hanfodol bod unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth yn cael ei chyfathrebu â thrigolion a defnyddwyr gwasanaeth.

**6. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Rees i Arweinydd y Cyngor – Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

*"Yn dilyn y gyllideb fach drychinebus ym mis Medi, sut fydd y mesurau a nodwyd yn natganiad yr hydref yn ddiweddar yn effeithio ar Awdurdodau Lleol Cymru o ran fformiwla Barnett a'r Grant Bloc?"*

**Ymateb Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd A Morgan:**

Rhoddodd yr Arweinydd wybod fod marchnadoedd Gilt wedi gwella sy'n golygu ei bod hi'n effeithio ar gostau benthyca ar gyfer buddsoddi cyfalaf, tra bod costau benthyca llywodraeth leol eisoes wedi'u pennu. Mae tua 80% o gostau benthyca Llywodraeth y DU wedi'u pennu, ac mae 20% o'r benthyca yn dibynnu ar lefelau llog ar y diwrnod. Roedd hyn yn golygu bod y gyllideb fach ond yn ychwanegu £15miliwn at fenthyca'r DU.

Ychwanegodd yr Arweinydd fod y mesurau a gyhoeddwyd yn Natganiad yr

Hydref yr wythnos ddiwethaf, yn golygu y bydd Cymru'n derbyn cyllid ychwanegol gwerth £1.2biliwn dros y ddwy flynedd nesaf. Esboniodd yr Arweinydd fod y cyllid yma'n cael ei groesawu ar gyfer ein gwasanaethau mawr; fodd bynnag, nid yw'r cyllid yn mynd i'r afael â'r bwlch yn y gyllideb y mae'r Cyngor yn ei wynebu ac sy'n ehangu o hyd. Mae costau ynni'n cynyddu i £200miliwn ac mae'r GIG yn wynebu cynnydd gwerth £207miliwn mewn costau ynni. Gan ystyried yr uchod, bydd 80% o'r cyllid ar gyfer y flwyddyn nesaf dim ond yn talu am gostau ynni ar gyfer y GIG a Chynghorau Cymru.

Daeth yr Arweinydd i ben drwy nodi y bydd cyfres o gyfarfodydd yn cael ei chynnal rhwng nawr a 14 Rhagfyr pan fydd y Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro yn cael ei gyhoeddi ond hyd yn oed gyda'r £1.2biliwn ychwanegol dros y ddwy flwyddyn nesaf, ni fydd y gyllideb ar gyfer 2024/25 yn uwch na'r flwyddyn gyfredol mewn gwirionedd.

**Nid oedd unrhyw amser ar gyfer cwestiwn ategol.**

**54 Rhaglen Waith y Cyngor 2022/23 - er gwybodaeth**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu Raglen Waith y Cyngor ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2022/23, gan roi gwybod y bydd manylion y cyfarfod Cyngor arbennig ym mis Rhagfyr yn cael eu rhannu maes o law. Ychwanegodd y bydd y cyfarfod Cyngor yn cael ei gynnal ar 18 Ionawr 2023. Byddai hyn yn cynnwys busnes y Cyngor fel sydd wedi'i bennu yn y rhaglen waith a bydd manylion am Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd a'r Cyfansoddiad yn cael eu rhannu cyhyd â bod y materion yma'n cael eu trafod gan Bwyllgor y Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

**55 CRONFA BENSIWN RHONDDA CYNON TAF 2021/22 – DATGANIAD O GYFRIFON AC ADRODDIAD ARCHWILIO ALLANOL**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol wybod bod fersiwn terfynol o gyfrifon wedi'u harchwilio'r gronfa ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth, 2022, yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor, ac yntau'n Awdurdod Gweinyddu ar gyfer Cronfa Bensiwn RhCT. Ychwanegodd fod y broses archwilio allanol bellach wedi'i chwblhau, a chyflwynodd Mr Mike Jones, o Archwilio Cymru, er mwyn iddo ddarparu crynodeb o'r adroddiad archwilio diwedd blwyddyn.

Cyflwynodd Mr M Jones, Archwilio Cymru, Adroddiad Archwilio Cyfrifon Cronfa Bensiwn RhCT gan Archwilio Cymru, gan gyfeirio Aelodau'n benodol at baragraff 4 a 5 sy'n pennu lefelau perthnasedd eleni gwerth £45miliwn. Roedd Mr Jones yn dymuno cydnabod bod yr adroddiad byr a chadarnhaol yn adlewyrchu camddatganiadau argraffyddol a fformatio (fel sydd wedi'i nodi ym mharagraff 11,12 a 13 o'r adroddiad). Aeth ati i roi clod i Wasanaeth Cyllid Cyngor RhCT. Rhoddodd Mr Jones wybod bod oedi wrth gymeradwyo cyfrifon RhCT o ganlyniad i broblemau sy'n ymwneud â seilwaith a sut mae hyn yn cael ei chyfrif. Ychwanegodd fod yr oedi yma'n digwydd ar lefel genedlaethol gyda Llywodraeth Cymru yn ystyried trechu statudol ar hyn o bryd.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol wybod nad oedd unrhyw broblemau sy'n peri pryder, ychwanegodd fod cyfrifon y gronfa wedi'u hatodi ynghyd â'r llythyr o gynrychiolaeth. Nododd y Cyfarwyddwr fod trefniadau llywodraethu cynhwysfawr y gronfa wedi bod yn effeithiol trwy gydol y flwyddyn a

bod y cyfrifon wedi cael eu hadolygu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 7 Medi 2022. Ni chafodd unrhyw bryderon a fyddai'n atal y Cyngor rhag cymeradwyo'r cyfrifon yma eu codi yn ystod y cyfarfod.

Dymunodd yr Arweinydd ddiolch i Archwilio Cymru gan gydnabod y gwaith ymgysylltu a'r cydweithio llwyddiannus. Dymunodd hefyd ddiolch i Gyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol a'i garfanau am reoli cyfrifon y Cyngor gan ystyried nifer y grantiau sydd wedi'u prosesu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD**:

1. Cymeradwyo a nodi Datganiad o Gyfrifon Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf (Atodiad 1), a'r Llythyr o Gynrychiolaeth cysylltiedig (Atodiad 2); a

2. Nodi deilliant cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 7 Medi 2022 yn unol â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol (paragraff 8.2).

**56 Adroddiad Canol Blwyddyn Cylch Rheoli’r Trysorlys 2022-23**

Yn unol â gofynion Cod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth mewn perthynas â Rheoli'r Trysorlys, rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol wybod i'r Aelodau am weithgarwch Rheoli'r Trysorlys y Cyngor yn ystod 6 mis cyntaf 2022/23 a'r Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys yn ystod y cyfnod yma.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod bod modd i'r Cyngor barhau i gynnal ei strategaeth fuddsoddi risg isel er gwaetha'r sefyllfa economaidd. Mae'r strategaeth yn cyflawni'n dda gyda chyfradd uwch o log sy'n gysylltiedig â risg o'i chymharu ag eraill. Ychwanegodd nad oedd unrhyw ofynion benthyca yn y tymor agos yn debygol o fod yn ofynion sylweddol na hir dymor a bydd benthyca byr dymor yn mynd i'r afael â hyn.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod bod yna un risg sy'n gysylltiedig â dod â dyled LOBO y Cyngor i ben, cyfanswm y ddyled LOBO yn 2022/23 yw £31miliwn, gyda chyfradd llog o 4.5%. Nododd y Cyfarwyddwr y bydd y Cyngor yn defnyddio cymysgedd o ddulliau benthyca er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian.

Ar ôl trafod y mater, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo cynnwys yr adroddiad.

**57 Rhybudd o Gynnig**

Derbyniwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol yn enwau:

A. Morgan, M. Webber, L. Addiscott, M. D. Ashford, J. Barton. D. R. Bevan, J. Bonetto, S. Bradwick, J. Brencher, G. Caple, J. Cook, A. Crimmings, S. J. Davies, R. Davis, V. Dunn, E. L. Dunning, J. Edwards, J. A. Elliott, L. Ellis, S. Emanuel, R. Evans, A. S. Fox, R. Harris, S. Hickman, G. Holmes, G. Hopkins, W. Hughes, G. Jones, G. O. Jones, R. R. Lewis, W. Lewis, C. Leyshon, M. Maohoub, C. Middle, N. H. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, D. Parkin, S. Powderhill, C. Preedy, S. Rees, A. Roberts, J. Smith, G. Stacey, L. A. Tomkinson, W. Treeby, J. Turner, G. L. Warren, K. Webb, D. Williams, G. E. Williams, R. Williams, T. Williams, R. Yeo:

Mae Unite yn cynnal yr ymgyrch 'Get Me Home Safely' i sicrhau bod trafnidiaeth ar gael i weithwyr yr economi nos a gweithwyr sifftiau er mwyn iddyn nhw gyrraedd adref yn ddiogel. Mae'r gweithwyr yma'n aml yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i drafnidiaeth ar ôl canol nos, a thalu amdani. Mae modd darllen rhagor am yr ymgyrch [Get ME Home Safely | Make Our Communities & Workplaces Safer (unitetheunion.org)]

Mae gan Gynghorau rôl allweddol i'w chwarae wrth weithio gyda busnesau a phartneriaid cymunedau diogel er mwyn sicrhau bod modd i bobl sy'n gweithio ac yn byw yn eu cymuned leol gyrraedd adref yn ddiogel.

**Mae'r Cyngor yma'n nodi**:

- Bod gweithwyr mewn amrywiaeth o ddiwydiannau'n gweithio sifftiau, yn enwedig lletygarwch, iechyd a gofal, manwerthu, glanhau, diogelwch a phorthorion. Mae hyn yn aml yn cynnwys gweithio gyda'r nos.
- Bod nifer o weithwyr, yn enwedig menywod, yn dod yn fwy pryderus am eu diogelwch wrth deithio i'r gwaith ac yn ôl gyda'r nos.
- Er ei bod hi'n bosibl bod cyflogwyr yn teimlo bod eu dyletswydd gofal o ran staff yn dod i ben wrth i weithiwr orffen sifft, mae angen iddyn nhw hefyd ystyried teithio adref, yn enwedig yn ystod oriau anghymdeithasol.
- Bod gwybodaeth gan Unite yn dangos bod y gwendid o ran gorfodi'r gyfraith mewn perthynas ag ymosodiadau rhywiol ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys tynnu llun o dan ddilledyn rhywun arall, yn ofnadwy. Deallir mai dim ond 2% o ddioddefwyr yn rhoi gwybod am achosion o aflonyddu rhywiol ar drafnidiaeth gyhoeddus.
- Bod ymgyrch Unite the Union, Get Me Home Safely, sy'n galw ar bob cyflogwr i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod modd i weithwyr gyrraedd adref yn ddiogel gyda'r nos ar ôl gweithio, yn un sydd ei hangen yn fawr a dylid ei chefnogi.
- Bod angen i ragor o staff trafnidiaeth gyhoeddus dderbyn hyfforddiant ar sut i nodi a rhoi gwybod am achosion o aflonyddu rhywiol a bod angen cymryd camau pellach er mwyn gorfodi'r gyfraith o ran ymosodiadau ac aflonyddwch rhywiol ar drafnidiaeth gyhoeddus.

**Bydd y Cyngor yn:**

- Cefnogi ymgyrch 'Get Me Home Safely' Unite the Union.
- Ailddatgan ei ymrwymiad i gymryd camau cadarnhaol i atal trais yn erbyn menywod a merched a sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel mewn mannau cyhoeddus ledled RhCT. Bydd y Cyngor yn parhau i fynd ati i gyflawni nodau Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref, a Thrais Rhywiol 2022-2026 Llywodraeth Cymru.
- Parhau i weithio gyda busnesau sydd angen trwydded er mwyn gweithredu economi nos diogel yn unol ag Amcanion ein Polisi Trwyddedu, gweithio gyda deiliaid trwydded, cyflogwyr, yr Heddlu a phartneriaid Cymunedau Diogel i sicrhau bod ein cymunedau yn lleoedd diogel gyda'r nos.
- Gweithio gyda'n busnesau a sefydliadau sy'n gweithredu gyda'r hwyr ac sy'n cyflogi gweithwyr sifft i hyrwyddo diogelwch gweithwyr ac annog deiliaid trwydded a chyflogwyr i ystyried trafnidiaeth i staff yn rhan annatod o weithredu busnes diogel a chynaliadwy. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod gweithwyr y sectorau yma'n cael eu gwerthfawrogi. Bydd hyn

hefyd o fudd mawr o ran diogelwch a lles gweithwyr lletygarwch, yn enwedig menywod, nad oes modd iddyn nhw fforddio trafnidiaeth ddiogel gyda'r nos, na dod o hyd iddi. Bydd trafnidiaeth i staff hefyd o fudd i'n cymuned a'r busnesau trwy wella mesurau recriwtio a chadw staff.

- Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddwyn ymlaen ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer tacsis a cherbydau hurio preifat a sut mae'r fframwaith deddfwriaethol yn gweithredu yng Nghymru.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig.

**58 Materion Brys**

Rhoddodd y Llywydd wybod y bydd adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu mewn perthynas â 'Newid Aelodaeth Pwyllgorau' yn cael ei drafod nawr, fel mater brys.

**59 NEWID AELODAETH PWYLLGORAU**

Rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu wybod am y newidiadau i gynrychiolaeth y Grŵp Llafur ar Bwyllgor y Gronfa Bensiwn ac Elusen Edward Thomas yn lle cyn-Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol Marcia Rees-Jones.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD** nodi y bydd:

1. Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol N Morgan yn cael ei enwebu yn lle cyn-Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Rees-Jones yn rhan o Bwyllgor y Gronfa Bensiwn;

2. Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Dennis yn cael ei enwebu yn lle cyn-Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol Marcia Rees-Jones ar Fwrdd Elusen Edward Thomas.

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.15 pm**

**Y Cynghorydd G Hughes**
**Cadeirydd.**